TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# HND Peirianneg Sifil



## Yn gryno

Mae'r HND (Diploma Cenedlaethol Uwch) mewn Rheolaeth Adeiladu yn datblygu ar y wybodaeth a'r sgiliau a fagwyd wrth gwblhau'r HNC. Edrychir ar hanfodion y diwydiant adeiladu a chynllunio, iechyd a diogelwch a rheoli adnoddau dynol mewn adeiladu, rheoli sefydliadau adeiladu, ac ansawdd mewn adeiladu.

## Dyma'r cwrs i chi os...

... Rydych eisoes wedi cwblhau ac wedi ennill cymhwyster HNC mewn adeiladu

... Rydych chi eisiau dilyn gyrfa ym maes adeiladu

## Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r HND yn cynrychioli ail flwyddyn sy'n lefel 5 gradd lawn. Mae'n ffordd ddelfrydol i ddatblygu o'r HNC, ac mae'n darparu llwybr cynnydd i ddilyn gradd mewn Disgyblaethau megis Rheolaeth Adeiladu, Arolygu neu Beirianneg Sifil.

Mae'r Modiwlau a Astudir ar yr HND yn dibynnu ar lwybrau.

Y llwybrau a gynigir:

Peirianneg Sifil
Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu
Rheolaeth Adeiladu
Technoleg Saernïol
Tirfesur

Ymhlith y modiwlau mae:

Prosiect Grwp
Daeareg
Cadwraeth
Mesur a Thendro Uwch
Gwybodaeth Adeiladu Uwch

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Bydd gofyn i chi wneud y canlynol:

Cymryd rhan mewn darlithoedd gan ddilyn dull astudio lle cewch eich rhyddhau chi am ddiwrnod.
Wrth gofrestru, gwneud ymholiad ynghylch cyllid gan y llywodraeth drwy ein prentisiaethau uwch.
Cwblhau Asesiadau sy'n seiliedig ar waith cwrs fydd yn cael ei ddosbarthu yn ystod ail flwyddyn eich cwrs
Astudio astudiaethau achos prosiectau cyfredol, gan ddangos diddordeb realistig a chyfleoedd i gymryd rhan mewn sefyllfaoedd proffesiynol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau'r HND yn llwyddiannus, gall dysgwyr fynd ymlaen i'r Brifysgol i ddatblygu graddau llawn.

Mae gennym gysylltiadau gwych gyda'n prifysgolion lleol a gallwn drefnu sesiynau blas, diwrnodau agored a thrafodaethau gyda thiwtoriaid yn y sefydliadau hynny.

Fel arall, byddai HND Lefel 5 yn gymhwyster delfrydol er mwyn dilyn gyrfa mewn tirfesur adeiladau, peirianneg safle, rheoli safle neu Dechnoleg Saernïol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r cwrs hwn hefyd ar gael fel prentisiaeth genedlaethol uwch.